Senedd Cymru
Welsh Parliament

Jane Hutt AS
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip

13 Hydref 2020

Annwyl Jane

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Cam-drin Domestig**

Yn ein llythyr atoch ar 30 Medi 2020, gwnaethom nodi:

> *"Rydym wedi nodi nad yw'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ei hun yn darparu dadansoddiad o sut mae'r darpariaethau a restrir yn y Memorandwm o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. O ystyried bod Llywodraeth y DU yn nodi yn y Nodiadau Esboniadol i'r Bil nad yw'r materion y mae'r darpariaethau yn y Bil yn ymwneud â hwy "o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru" ac felly nad oes angen cydsyniad, byddem yn ddiolchgar pe byddech yn darparu'r dadansoddiad a wnaethoch er mwyn penderfynu bod cymalau 3, 65, 66, 68 a 73 yn dod o fewn cymhwysedd y Senedd.*
>
> *Rydym hefyd yn nodi bod gan gymal 3, lle gofynnir am gydsyniad, gysylltiad â'r diffiniad o "gam-drin domestig" yng nghymal 1, sydd yn ei dro yn gysylltiedig â'r diffiniad o "wedi'i gysylltu'n bersonol" yng nghymal 2. Pam rydych chi'n ystyried nad oes angen cydsyniad y Senedd ar gymalau 1 a 2 pan gredwch fod angen cydsyniad ar gymal 3?"*


**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Cysylltu@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Contact@senedd.wales
0300 200 6565

Roedd eich ymateb ar 6 Hydref yn dweud:

> *"Rwy'n parhau i gredu bod achos cryf dros ddadlau bod y darpariaethau a nodwyd yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Diben cyffredinol y Bil yw codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gam-drin domestig a'i effaith ar ddioddefwyr, atal cam-drin domestig, gan gynnwys cryfhau'r cymorth i ddioddefwyr camdriniaeth a'u teuluoedd; ac mae hyn yn cael effaith glir ar faterion datganoledig."*


Fodd bynnag, nid ydym o'r farn bod yr ymateb hwn yn rhoi'r lefel briodol o wybodaeth i'n Pwyllgorau.

Byddem felly yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r dadansoddiad y gofynnwyd amdano yn ein llythyr ar 30 Medi, sy'n arferol i'w gynnwys ym Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Yn y bôn, dylai hon fod yn wybodaeth fanwl am sut mae cymalau penodol yn y Bil (yr ydych chi'n eu nodi) yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ac yn unol â hynny, y rhesymau pam y gofynnir am gydsyniad.

Yn wyneb ein dyddiad cau ar gyfer adrodd, **byddem yn ddiolchgar o dderbyn y dadansoddiad hwn erbyn 2pm ddydd Iau 15 Hydref 2020 fan bellaf.**

Yn gywir





**Mick Antoniw**

Cadeirydd, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

**John Griffiths**

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.